



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Newid yn yr Hinsawdd a Natur

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2023 am 10.00 am

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd S E Keeton (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

C M J Evans  
O G James

**Y Cyngorydd(wyr)**

E W Fitzgerald  
M W Locke

**Y Cyngorydd(wyr)**

W G Thomas

**Hefyd yn Bresennol**

Robert Francis-Davies

Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth

**Swyddog(ion)**

Michelle Grove  
Steve Hopkins  
Liz Jordan  
Mark Wade

Swyddog Twristiaeth  
Rheolwr Twristiaeth a Marchnata  
Swyddog Craffu  
Cyfarwyddwr Lleoedd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wy): M H Jones a/ac B J Rowlands

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Wendy Fitzgerald a Chris Evans gysylltiad personol.

**2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

**3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**4 Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

**5 Sesiwn friffio Twristiaeth Amgylcheddol**

Roedd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth a Steve Hopkins, Rheolwr Twristiaeth a Marchnata yn bresennol i friffio'r panel ac ateb cwestiynau.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae'r Panel yn teimlo nad oes digon o gyfleusterau cyhoeddus ar gael, er enghraifft, toiledau, tapiau dŵr yfed, rheseli beiciau etc. ar hyd ardaloedd mwy twristaidd Abertawe a Gŵyr, gan gynnwys glan y môr, a holwyd a oedd cynlluniau i gynyddu'r mathau hyn o gyfleusterau. Hysbyswyd y Panel fod toiledau cyhoeddus yn agos at yr holl draethau mawr rhwng y Mwmbwls a Rhosili. Clywodd y Panel fod y cyngor ar hyn o bryd yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer cynyddu cyfleusterau parcio beiciau mewn lleoliadau strategol ar draws y rhwydwaith teithio llesol a all annog ymwelwyr sy'n mwynhau beicio hamdden.
- Mae'r Panel yn teimlo bod cynlluniau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru wedi'u seilio'n fwy ar gymudwyr yn hytrach nag annod pobl i fynd i fannau hamdden. Holodd yr Aelodau a oes unrhyw botensial ar gyfer ychwanegu cysylltiadau byr o'r llwybrau teithio llesol at y cyrchfan i dwristiaid, gan eu bod yn credu y byddai llawer o bobl yn defnyddio'r llwybrau hyn o ganlyniad. Bydd Aelod y Cabinet priodol yn darparu ymateb llawn yn dilyn y cyfarfod.
- Gofynnodd y Panel am Lwybr Arfordir Cymru a holodd a oedd unrhyw adborth y mae'r cyngor yn ei gael ar unrhyw rannau o'r llwybr yn cael ei gyfleu i sefydliad Mynediad i Gefn Gwlad Cymru. Bydd Aelod y Cabinet priodol yn darparu ymateb llawn yn dilyn y cyfarfod.
- Trafododd y Panel fap beicio'r ardal, a sut yn flaenorol yn y Pwyllgor Craffu, siaradodd yr aelodau am fap arddull sgïo gyda llinellau coch, glas, du a gwyrdd a oedd yn dangos y lefel anhawster. Holodd y Panel a oedd hyn wedi'i weithredu yn y map a sut y bydd hyn yn cysylltu â chefn gwlad Gŵyr. Bydd Aelod y Cabinet priodol yn darparu ymateb llawn yn dilyn y cyfarfod.
- Dywedodd y Panel nad yw Abertawe wedi'i chofrestru ar wefan Awyr Dywyll. Clywyd nad oes gan y cyngor statws Awyr Dywyll eto ond mae'n gweithio tuag ato.
- Trafododd y Panel sut mae pobl yn dod i draethau yn Abertawe i 'drochi' yn y môr ar bob adeg o'r flwyddyn ond yn enwedig yn y gaeaf, a gofynnodd a yw hyn yn werth edrych arno'n agosach fel ymgyrch ar gyfer y gaeaf, gan ei fod yn hynod boblogaidd. Clywyd bod hyn wedi cael ei drafod gyda'r Grŵp Rheoli Traethau o safbwynt diogelwch, gan ei fod yn digwydd yn aml ar adegau pan nad oes gan y cyngor achubwyr bywydau ar y traethau.
- Nododd y Panel fod ardaloedd na all llwybr beicio fynd drwyddynt oherwydd materion cyfreithiol, fel gwrthwynebiad gan rai grwpiau. Holodd y Panel a oes hawliau tramwy yn mynd drwy'r ardaloedd hyn i bobl gerdded etc., ac os felly, a ellir hyrwyddo'r hawliau tramwy hyn yn fwy i annog mwy o gerddwyr/feicwyr i'w defnyddio. Gofynnodd y Panel hefyd a ellid lleoli rheseli beiciau yn y mannau hyn. Clywodd y Panel fod hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u cofnodi ar draws y sir gyfan sy'n cael eu hyrwyddo drwy'r wefan: [www.croesobaeabertawe](http://www.croesobaeabertawe) – ac mae'r mwyafrif hefyd ar gael fel PDFs y gellir eu lawrlwytho. Dywedodd y Panel

nad oes gan feicwyr yn gyfreithiol yr hawl i ddefnyddio llwybrau cyhoeddus, ond bod ganddynt hawl i ddefnyddio llwybrau ceffylau cyhoeddus.

- Gofynnodd y Panel a oedd y cyngor yn rhagweld y bydd newidiadau diweddar i wasanaethau bysus yn cael effaith fawr ar dwristiaeth werdd, ac a oes unrhyw gynlluniau i geisio goresgyn hyn. Clywodd y Panel fod gwasanaethau bysus ar benrhyn Gŵyr yn cael eu rhedeg gan Adventure Travel (nid First Cymru), felly nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt. Mae'r rhan fwyaf o llwybrau twristiaeth yn Abertawe yn dal i weithredu o ddydd Llun i ddydd Sul ond mae amllder y gwasanaeth wedi lleihau. Un o'r problemau gyda gwasanaethau bysus yw bod gan Abertawe ddau ddarparwr - Adventure Travel a First Cymru, ac nid ydynt yn gweithredu system tocyn drwodd. Dangosodd ymchwil yn 2022 fod y rhan fwyaf o bobl yn dal i gyrraedd mewn car ac mae'r anghydfod rheilffordd parhaus yn annog pobl i ddefnyddio'r opsiwn hwn.

Camau Gweithredu:

- Darparu gwybodaeth am y posibilrwydd ar gyfer ychwanegu cysylltiadau byr rhwng llwybrau teithio llesol a chyrchfannau hamdden.
- Darparu gwybodaeth am gyfathrebu â Mynediad i Gefn Gwlad Cymru ynghylch adborth mewn perthynas â Llwybr Arfordir Cymru, uwchraddio a chyllid.
- Darparu gwybodaeth am weithredu map beicio 'arddull sgïo'.

## 6 Cynllun Waith 2023-24

Ystyriodd y panel y cynllun gwaith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am